**Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau a ganlyn:**

- **Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024**
- **Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2024**
- **Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

- Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2024
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
15 Ionawr 2024

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024

1. Bydd Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau Safonau" o hyn ymlaen) yn gwella ansawdd addysg a lles, iechyd, a diogelwch disgyblion mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru, ac yn cryfhau trefniadau llywodraethu mewn ysgolion annibynnol drwy wneud y canlynol:

    - cryfhau'r gofynion o ran hyfforddiant diogelu ar gyfer staff ac arweinwyr ysgolion;
    - gwella diogelu drwy gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn fwy aml, hy bob tair blynedd;
    - cryfhau'r gofynion i sicrhau bod ysgolion yn mynd ati i hybu diogelu dysgwyr;
    - ei gwneud yn glir mai'r perchennog sy'n gyfrifol am gydymffurfio yn y pen draw;
    - ychwanegu gofynion i ysgolion fynd ati i hybu gwybodaeth am Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dealltwriaeth ohoni
    - ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol roi ar gael i rieni a, phan fo hynny'n briodol, i awdurdodau lleol wybodaeth benodol fel dyddiadau tymhorau ac adroddiadau arolygu.

Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2024

- Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau Gwybodaeth" o hyn ymlaen) yn gwneud newidiadau i'r wybodaeth y mae hi'n ofynnol i berchnogion ysgolion ei darparu i Weinidogion Cymru pan wneir cais i gofrestru ysgol annibynnol newydd.

Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) 2024

- Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau Gwahardd" o hyn ymlaen) yn helpu i sicrhau y caniateir gwahardd unigolion penodol rhag cymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgolion annibynnol yng Nghymru.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2. Mae'r Rheoliadau a restrir yn y Memorandwm Esboniadol wedi'u gosod fel un pecyn i gefnogi gweithredu'n gydlynol ddiwygiadau i'r fframwaith rheoleiddio y mae ysgolion annibynnol yng Nghymru yn gweithredu oddi mewn iddo.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

<u>Y Rheoliadau Safonau</u>

3. Mae adran 157(1) o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau sy’n rhagnodi safonau ynghylch y materion canlynol, (a) ansawdd yr addysg a ddarperir mewn ysgolion annibynnol; (b) datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion mewn ysgolion annibynnol; (c) lles, iechyd a diogelwch disgyblion mewn ysgolion annibynnol; (d) addasrwydd perchnogion ysgolion annibynnol a staff mewn ysgolion annibynnol; (e) mangreoedd ysgolion annibynnol a llety byrddio mewn ysgolion annibynnol; (f) darparu gwybodaeth gan ysgolion annibynnol; (g) dull ysgolion annibynnol o ymdrin â chwynion.

4. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

<u>Y Rheoliadau Gwybodaeth</u>

5. Mae adran 160(1) o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau ynghylch y math o gais a’r wybodaeth y mae’n ofynnol eu rhoi i’r awdurdod cofrestru wrth wneud cais i gofrestru ysgol annibynnol newydd. Mae adran 168 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i berchennog ysgol gofrestredig roi i’r awdurdod cofrestru, pan fo’r awdurdod yn gofyn am hynny, unrhyw fanylion sy’n ymwneud â’r ysgol a ragnodir.

6. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth hefyd yn cael eu gwneud yn unol ag adran 157(1) o Ddeddf Addysg 2002 oherwydd bod rheoliadau 9 ac 11 yn dirymu darpariaeth sy'n ymwneud â safonau ysgolion annibynnol.

7. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Y Rheoliadau Gwahardd

8. Mewnosodwyd adran 167A a 167B yn Neddf Addysg 2002 gan adran 169 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Rhoddodd yr adrannau hyn bwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n rhagnodi ar ba seiliau y caniateir rhoi cyfarwyddyd sy’n gwahardd person rhag cymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol yng Nghymru, neu sy’n cyfyngu ar allu person i wneud hynny.

9. Mae adran 171 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn darparu ar gyfer rheoliadau i ragnodi'r amgylchiadau y caniateir i bersonau sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd a wnaed o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002 (y drefn reoleiddio gynt) gael eu trin fel personau sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd a wnaed o dan adran 167A.

10. Mae'r tair set o Reoliadau yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

11. Ar hyn o bryd, mae ychydig dros 80 o ysgolion annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Mae’r nifer hwn wedi’i rannu’n weddol gyfartal rhwng ysgolion prif ffrwd a’r rhai sy’n darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae’r ystod oedran y mae’r ysgolion hyn yn darparu ar ei chyfer yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae rhai yn derbyn disgyblion hyd at 18 oed, ac eraill ond yn darparu ar gyfer ystodau oedran penodol. Ceir amrywiadau sylweddol o ran maint hefyd. Mae’r ysgol leiaf wedi’i chofrestru ar gyfer uchafswm o bedwar disgybl, a’r fwyaf ar gyfer hyd at 1,500 o ddysgwyr.

12. Yn ôl y cyfrifiad ysgolion diweddaraf, sy’n cael ei gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn ac y mae’n ofynnol yn gyfreithiol i bob ysgol yng Nghymru ei gwblhau, mae oddeutu 10,000 o ddisgyblion yn y sector annibynnol yng Nghymru. Mae’r sector yn cyflogi rhyw 850 o athrawon cymwys a 1,200 o staff cymorth megis cynorthwywyr addysgu. Mae rhai ysgolion annibynnol yn cynnig darpariaeth fyrddio, ac mae’r rhain yn recriwtio dysgwyr rhyngwladol yn rheolaidd.

13. Mae llawer o’r ysgolion sy’n darparu ar gyfer dysgwyr ag ADY/AAA yn cynnig darpariaeth breswyl, ac mae disgyblion sy’n mynychu’r rhain fel arfer yn cael eu cyllido gan eu hawdurdod lleol. Fel arfer, yr awdurdod lleol sy’n gofalu am ychydig dros hanner y disgyblion hyn, ac maent yn symud i mewn ac allan o’r ddarpariaeth yn rheolaidd, yn aml ar fyr rybudd, gan fod eu gofynion gofal yn newid yn gyflym. Y disgyblion hyn felly yw rhai o’r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yng Nghymru ac mae’n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, rhieni a gofalwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill yn darparu fframwaith sy’n sicrhau eu bod yn darparu’r

gofal a’r diogelu gorau posibl ar gyfer y disgyblion hyn ac yn gweithredu oddi mewn i'r fframwaith hwnnw.

14. Ceir ceisiadau i gofrestru ysgol annibynnol newydd gan ddarparwyr addysg o bryd i’w gilydd. Mae cymysgedd felly o ysgolion sydd wedi’u sefydlu’n ddiweddar a’r rhai sydd â hanes cyfoethog sy’n ymestyn yn ôl dros gannoedd o flynyddoedd.

15. Mae’n ofynnol i bob ysgol annibynnol yng Nghymru sy’n bodloni’r diffiniad yn adran 463 o Ddeddf Addysg 1996 gofrestru gyda Llywodraeth Cymru a chydymffurfio â chyfres o Reoliadau. Mae Deddf 1996 yn darparu bod ysgol yn ysgol annibynnol os nad yw’n cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol a’i bod yn darparu addysg lawnamser ar gyfer: pump neu ragor o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol; neu o leiaf un disgybl sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU); neu un sydd â datganiad AAA; neu un sydd â Chynllun Addysg, Iechyd a Gofal; neu ddisgybl sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol. Nid yw’n berthnasol p’un a ddarperir addysg lawnamser yn yr ysgol hefyd ar gyfer disgyblion sy’n iau neu’n hŷn na’r oedran ysgol gorfodol.

16. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud newidiadau i ddwy set o Reoliadau ac yn cyflwyno set newydd o Reoliadau fel cyfres. Lluniwyd y Rheoliadau drwy gydbwyso’r angen i sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn rhesymol ac yn gymesur ac nad ydynt yn cyfyngu’n ddiangen ar y rhyddid sydd gan ysgolion annibynnol i’w trefnu eu hunain a darparu addysg.

17. Ar hyn o bryd, mae pum set o Reoliadau ac un Gorchymyn sy’n rhagnodi sut y dylai ysgolion annibynnol yng Nghymru weithredu:

- Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymeriad Crefyddol Ysgolion) (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2003
- Rheoliadau Addysg (Ysgolion Annibynnol) (Personau Anaddas) (Cymru) 2009
- Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2009

18. Ers cyflwyno’r Rheoliadau hynny, mae nifer o ddiffygion wedi dod i’r amlwg yn y fframwaith deddfwriaethol y mae angen mynd i'r afael â hwy. Mae'r diffygion hyn yn cynnwys Gweinidogion Cymru yn hanesyddol heb allu yn y gyfraith i ddelio'n effeithiol â phroblemau sylweddol sydd wedi'u nodi mewn ysgolion penodol.

19. Yn Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, mae’r safon sy’n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion yn canolbwyntio ar

bwysigrwydd ysgol sy'n darparu amgylchedd diogel ar gyfer dysgu a datblygu. Mae rhai o’r pethau y mae ysgolion sy’n methu â chydymffurfio â’r safon hon yn eu gwneud yn cynnwys peidio â dadansoddi a lliniaru risgiau i ddisgyblion, peidio â sefydlu na gweithredu polisïau sy’n darparu ar gyfer lles disgyblion pan fyddant yn yr ysgol, a pheidio â sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at adnoddau lles y tu allan i oriau ysgol. Mae pob un o’r rhain yn ofynion er mwyn cyrraedd y safon yn y Rheoliadau Safonau newydd.

20. Mae Gweinidogion Cymru wedi cydnabod y diffygion hyn yn y fframwaith rheoleiddio a’r ffordd y gellir gorfodi'r Safonau drwy ymateb i adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o sut y mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau o dan adran 72 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, lle cafodd yr angen am ddiwygio sylfaenol i ddiweddaru'r system reoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol ei gydnabod. Gwnaed yr un ymrwymiad i adolygu’r Rheoliadau Ysgolion Annibynnol yn ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2020-21 ac yn yr ymateb i'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

21. Cafwyd sawl ymgais yn y gorffennol i ddiweddaru’r fframwaith rheoleiddio, ond ni chafodd y rhain eu cwblhau erioed, yn fwyaf diweddar oherwydd pandemig COVID-19. Felly mae angen diweddaru’r Rheoliadau ar frys erbyn hyn. Darperir rhagor o fanylion ynghylch diben ac effaith arfaethedig pob un o'r Rheoliadau hyn isod:

**<u>Y Rheoliadau Safonau</u>**

22. Mae'r Rheoliadau Safonau yn dirymu ac yn cymryd lle Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae’r Rheoliadau hyn yn defnyddio’r pwerau yn adrannau 157(1) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002 i ddiweddaru a chyflwyno gofynion newydd, sy’n rhagnodi’r safonau y mae rhaid i ysgolion annibynnol gydymffurfio â hwy. Cyfrifoldeb perchennog ysgol annibynnol yw sicrhau bod y safonau'n cael eu cyrraedd.

23. Themâu allweddol y newidiadau hyn yw diweddaru gofynion rheoleiddio er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu ysgolion a gwella ansawdd addysg a ddarperir yn ogystal â diogelu, lles, iechyd a diogelwch disgyblion mewn ysgolion annibynnol.

24. Mae’r Rheoliadau Safonau, fel Rheoliadau 2003, yn nodi’r safonau a’r gofynion mewn saith rhan;

i) Ansawdd yr addysg a ddarperir yn yr ysgol
ii) Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion
iii) Lles, iechyd a diogelwch disgyblion
iv) Addasrwydd perchnogion, staff a staff cyflenwi

v) Mangreoedd ysgolion a llety byrddio mewn ysgolion
vi) Darparu gwybodaeth
vii) Y dull o ymdrin â chwynion.

Egluro pwy sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r safonau

25. Mae'r Rheoliadau Safonau yn newid llawer o'r gofynion o 'rhaid i'r ysgol' i 'rhaid i'r perchennog'. Diben hyn yw rhoi'r cyfrifoldeb yn glir am gydymffurfio â'r safonau i endid penodol, hy perchennog yr ysgol. Roedd yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn cefnogi'r dull gweithredu arfaethedig hwn. Roeddent hefyd o'r farn y byddai gwneud y newidiadau hyn drwy reoliadau yn sicrhau lefelau cydymffurfio na fyddai i'w gweld drwy ganllawiau. Mae'r Rheoliadau newydd felly yn darparu mai'r endid atebol yw'r perchennog.

26. Cafwyd ymateb eithaf cymysg i'r cynnig hwn yn yr ymgynghoriad gan fod gan ysgolion annibynnol wahanol drefniadau llywodraethu a chan nad oedd rhai yn cydnabod y term "perchennog" o dan eu hamgylchiadau eu hunain. Er hynny roedd cefnogaeth eang i'r syniad bod un person cyfreithiol yn atebol am sicrhau cydymffurfiaeth, yn hytrach na'r ysgol. Mae'r Rheoliadau Safonau felly yn parhau i ddefnyddio'r term "perchennog" ac yn datgan mai'r perchennog fydd yn gyfrifol am gydymffurfio, hyd yn oed os yw ei gyfrifoldebau o ddydd i ddydd o bosibl wedi eu trosglwyddo i eraill yn unol â threfniadau rheoli lleol.

Dysgu ar-lein

27. Yn dilyn y profiad o symud addysgu ar-lein yn ystod pandemig COVID-19, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod rhai ysgolion annibynnol yn parhau i gynnig dull cyfunol o addysgu a dysgu. Mewn ymateb i'r newid sylweddol hwn i ddulliau darparu, gan ragweld y bydd hyn yn dod yn duedd fwy cyffredin mewn ysgolion annibynnol, ac i ddiogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol, mae'r Rheoliadau Safonau yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i ysgolion fodloni gofynion y safonau amrywiol, ni waeth sut y darperir yr addysg a'r dysgu.

28. Er mwyn cynorthwyo'r dull uchod ac adlewyrchu na ellir darparu addysgu mewn lleoliad dosbarth bob amser, mae unrhyw gyfeiriadau at 'amser yn y dosbarth', 'ystafell ddosbarth' a 'dosbarth' wedi cael eu tynnu o'r Rheoliadau hyn ym mhob safon, ac eithrio'r rhai yn Safon 5 sy'n ymwneud â mangreoedd a llety byrddio.

Effaith y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

29. Diwygiwyd y diffiniad o ysgol annibynnol gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") a ddaeth i rym ym mis Medi 2021 ac eithrio mewn perthynas â phersonau penodol (yn ei hanfod, y rhai na chychwynnir Deddf 2018 ar eu cyfer o'r dyddiad hwnnw).

30. Pan fo'n briodol, mae'r Rheoliadau Safonau felly yn cyfeirio at gyflwyno'n raddol ofynion Deddf 2018 drwy ddiwygio'r geiriad yn y gofynion perthnasol i gynnwys disgyblion sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDU) neu Ddatganiadau.

<u>Safon 1 – Ansawdd yr addysg a ddarperir yn yr ysgol</u>

31. Bydd y Rheoliadau Safonau yn diwygio'r geiriad yn y gofynion o 'ysgol' i 'perchennog', gan gynnwys cyfeiriadau at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddant hefyd yn cyflwyno gofyniad newydd i sicrhau nad yw'r addysgu yn yr ysgol yn tanseilio gwerthoedd democratiaeth, rheol y gyfraith na pharch a goddefgarwch y rhai sydd â ffydd a chredoau gwahanol at ei gilydd. Mae gofyniad newydd hefyd y dylai perchnogion roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

32. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau Safonau yn codi lefel y disgwyliad o ran ansawdd yr addysg a ddarperir drwy newid ansawdd a safon yr addysgu, o 'digonol', 'boddhaol' a 'priodol' i lefel a fydd yn cyrraedd safon 'da' neu 'effeithiol'. Golyga hyn ein bod yn newid gofyniad y safon fel bod gwell darpariaeth yn ofynnol er mwyn sicrhau cydymffurfedd.

33. Ni fwriedir tanseilio gallu ysgol annibynnol i ddatblygu a chyflwyno ei chwricwlwm ei hun. Fodd bynnag, bydd y Rheoliadau Safonau yn ei gwneud yn glir bod rhaid i ysgolion ddatblygu cwricwlwm sy'n dangos ei fod yn diwallu anghenion pob dysgwr unigol yn yr ysgol. Ar gyfer dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), bydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen arno yn cael ei disgrifio yn ei CDU. Dylai cwricwlwm ysgol ddarparu dysgu gwahaniaethol i bob dysgwr o oedran ysgol gorfodol sy'n darparu profiad yn y meysydd canlynol: iaith, cyfathrebu, mathemateg, gwyddoniaeth, technoleg, y Dyniaethau, iechyd, llesiant a'r celfyddydau mynegiannol.

<u>Safon 2 – Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion</u>

34. Bydd y Rheoliadau Safonau yn diwygio'r geiriad yn y gofynion o 'ysgol' i 'perchennog' i'w gwneud yn glir pwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio; yn cyflwyno gofynion newydd i annog disgyblion i barchu gwerthoedd democratiaeth a chefnogi prosesau democrataidd, cyfraith sifil a chyfraith trosedd, rhyddid yr unigolyn a pharch a goddefgarwch y rhai sydd â ffydd a chredoau gwahanol at ei gilydd; yn eithrio hybu safbwyntiau gwleidyddol pleidiol wrth addysgu; a phan fo'n ymarferol, yn yr ysgol, yn sicrhau bod safbwyntiau gwleidyddol croes yn cael eu cyflwyno'n gytbwys i ddisgyblion. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno gofyniad i'r perchennog fynd ati i hybu gwybodaeth am Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dealltwriaeth ohoni.

Safon 3 – Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

35. Mae hi bellach yn ofynnol i'r perchennog sicrhau bod pob aelod o staff, staff cyflenwi a phawb sydd â chyfrifoldebau arwain a rheoli yn yr ysgol yn mynd ati i hybu llesiant y dysgwyr, gan wella eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles yn ogystal â threfniadau llywodraethu'r ysgol. Bydd cyflwyno'r gofyniad newydd hwn yn helpu i fynd i'r afael â bwlch yn Rheoliadau 2003 ac yn sicrhau bod y rhai sydd â chyfrifoldebau arwain a rheoli yn cymryd rôl fwy gweithredol wrth hybu llesiant disgyblion.

36. Nod sylfaenol pob diwygiad rheoleiddiol yn y safon hon yw cryfhau diogelu a lles dysgwyr drwy sicrhau bod yr holl staff, staff cyflenwi a gwirfoddolwyr mewn ysgolion annibynnol yn cwblhau hyfforddiant priodol ym mholisi diogelu yr ysgol annibynnol ac y dylid cael cofnod ysgrifenedig o'r hyfforddiant hwnnw. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gael polisi ysgrifenedig wedi'i weithredu'n llawn i ddiogelu a hybu lles disgyblion. Rhaid i bolisïau a threfniadau o'r fath roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â diogelu.

37. Bydd y Canllawiau Gweithredol diwygiedig sy'n cael eu lansio ochr yn ochr â'r newidiadau rheoleiddio hyn yn egluro bod y gofyniad i hybu lles dysgwyr yn cynnwys aelodau o'r corff llywodraethu a'r corff perchnogol yn ogystal â gweithwyr sydd mewn swyddi rheoli. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn ymwneud ag unrhyw un sydd â chyfrifoldebau arwain neu reoli mewn ysgol, ni waeth beth yw teitl eu swydd na'u safle. Bydd cyflwyno'r gofyniad yn caniatáu i Weinidogion Cymru weithredu os yw'n ymddangos bod methiannau yn nhrefniadau rheoli, arwain neu lywodraethu'r ysgol sy'n arwain at roi dysgwyr mewn perygl o niwed.

38. Bydd hi bellach yn bosibl i'w gwneud yn ofynnol i'r perchennog nodi mewn cynllun gweithredu pa gamau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â phryderon bod arweinyddiaeth yr ysgol yn methu yn ei dyletswydd i hybu lles, iechyd a diogelwch a llesiant dysgwyr.

39. Mae'r Rheoliadau Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gadw cofnodion i ddangos tystiolaeth bod polisïau'r ysgol, fel sy'n ofynnol gan Safon 3, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru fel y bo'n briodol. Mae polisïau sy'n cael eu hadolygu a'u haddasu'n rheolaidd yng ngoleuni profiad ac arferion da yn sail i ddiogelu effeithiol yn yr ysgol.

Safon 4 – Addasrwydd perchnogion, staff a staff cyflenwi

40. Ar hyn o bryd, ar ôl i wiriadau cychwynnol manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu gwneud ar berchnogion a staff, nid oes gofyniad statudol i ailadrodd y gwiriadau hyn tra byddant yn aros yn eu swyddi. Nid oes dyddiad dod i ben ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn cytuno y byddai cynnal y gwiriadau hyn yn fwy aml yn cyfrannu at wella diogelwch pob dysgwr. Roedd cefnogaeth eang hefyd i gynnal

gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn fwy aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac, o ganlyniad, mae'r Rheoliadau yn cyflwyno gofyniad i adnewyddu'r gwiriadau hyn bob tair blynedd.

41. Bydd cyflwyno gwiriadau rheolaidd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhoi ffocws ar ddiogelu a phwysigrwydd cael mesurau rheolaidd ar waith sy’n cryfhau diogelwch dysgwyr yn barhaus. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ysgolion byrddio, lle mae’r risgiau yn uwch gan fod y disgyblion sy’n byrddio yn aml yn byw yn bell oddi wrth eu teuluoedd, o dan awdurdod oedolion yn yr ysgol, ac yn ddibynnol arnynt am eu lles.

42. Mae'n ofynnol i'r perchennog ddarparu cadarnhad ysgrifenedig bod pob unigolyn perthnasol wedi cael y gwiriadau perthnasol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ar ôl ystyried yr wybodaeth sy'n deillio o'r gwiriadau mae'n ofynnol i'r perchennog ystyried a yw'r unigolyn yn addas ar gyfer y swydd y byddai'n cael ei benodi iddi.

43. Mewn perthynas â pherchnogion neu gadeiryddion ysgolion annibynnol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn nhystysgrif eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a byddant yn cadarnhau eu bod o'r farn bod yr unigolyn yn addas i fod yn berchennog neu'n gadeirydd yr ysgol annibynnol.

<u>Safon 5: Mangreoedd ysgolion a llety byrddio ysgolion.</u>

44. Bydd y Rheoliadau Safonau yn diwygio geiriad Rheoliadau 2003 i’w gwneud yn glir mai’r perchennog sy’n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio â’r safon hon.

45. Mae'r cyfeiriad at 'anghenion arbennig' yn anniffiniedig yn Rheoliadau 2003. Felly, mae'r geiriad yn Rheoliadau 2023 wedi ei newid i “gofynion arbennig” ac mae'n canolbwyntio ar yr angen i adeiladau a’r holl gyfleusterau yn yr ysgol fod yn hygyrch ac yn strwythurol gadarn. Bydd hyn yn sicrhau y gall pob dysgwr ddefnyddio’r adeiladau a’r cyfleusterau yn gyfartal. Dylai dysgwyr â gofynion arbennig hefyd gael mynediad at ddysgu a gweithgareddau allgyrsiol ar sail gyfartal â phob dysgwr arall.

<u>Safon 6 – Darparu gwybodaeth</u>

46. Mae'r Rheoliadau Safonau yn newid y math o fanylion cyswllt y mae rhaid i berchnogion ysgolion eu darparu i rieni. Maent yn cyflwyno gofyniad i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i rieni. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi adroddiadau arolygu ar wefan yr ysgol a’u rhoi ar gael i rieni disgyblion neu rieni darpar ddisgyblion ac i awdurdodau lleol os ydynt yn gyfrifol am ofalu am ddisgybl yn yr ysgol, cyllido disgybl yn yr ysgol neu gynnal CDU neu ddatganiad ar gyfer disgybl yn yr ysgol. Bydd hyn yn gwella tryloywder i ddisgyblion a rhieni ynghylch ansawdd yr addysg a ddarperir gan ysgolion annibynnol. Mae'r Rheoliadau Safonau hefyd yn cyflwyno dyletswydd i ddarparu

gwybodaeth ar gais i'r Prif Arolygydd, i Weinidogion Cymru, neu gorff a gymeradwywyd o dan adran 163(1)(b) o Ddeddf Addysg 2002.

47. Mae'r Rheoliadau Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod dyddiadau tymhorau ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol a'r flwyddyn academaidd nesaf, ynghyd â'r dyddiadau y bwriedir bod ar gau yn ystod y tymor ar eu gwefan.

48. Mae hi bellach hefyd yn ofynnol i'r ysgol annibynnol gyhoeddi a chadw ar wefan yr ysgol (os oes gan yr ysgol wefan) gopi o adroddiad adolygu a luniwyd yn dilyn arolygiad a wnaed o dan adran 163(1) o Ddeddf 2002 (os yw'r adroddiad wedi cael ei anfon at y perchennog neu at yr ysgol) cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl i'r ysgol gael yr adroddiad gan y corff a gynhaliodd yr arolygiad. Mae hefyd bellach ofyniad i gopi o'r adroddiad arolygu hwnnw gael ei ddarparu i'r canlynol:

- rhieni pob disgybl cofrestredig;
- pan fo disgybl cofrestredig yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol am roi’r gofal iddo;
- pan fo lleoliad disgybl cofrestredig wedi ei gyllido’n gyfan gwbl neu’n rhannol gan awdurdod lleol, yr awdurdod lleol sy’n darparu’r cyllid; a
- pan fo gan ddisgybl cofrestredig gynllun datblygu unigol neu ddatganiad, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gynnal y cynllun datblygu unigol neu'r datganiad.

<u>Safon 7 – Y dull o ymdrin â chwynion</u>

49. Mae'r Rheoliadau Safonau yn cynnwys gofyniad ar berchennog ysgol i gyhoeddi ei weithdrefn ymdrin â chwynion ar wefan yr ysgol neu, pan na fo hynny’n bosibl, i ddarparu copi o’r weithdrefn i ddisgyblion, disgyblion sy’n byrddio a’u rhieni a’i roi ar gael i rieni darpar ddisgyblion neu ddarpar ddisgyblion sy’n byrddio.

50. Rhaid i weithdrefn gwyno yr ysgol nodi amserlenni clir ar gyfer rheoli cwyn a rhaid iddi hefyd roi cyfle i gŵyn gael ei gwneud a'i hystyried yn anffurfiol i ddechrau. Os nad yw rhieni, disgyblion neu ddisgyblion sy’n byrddio wedi eu bodloni ar yr ymateb a wneir yn unol â'r weithdrefn ffurfiol, neu’n dymuno gwneud cwyn ffurfiol, rhaid i'r ysgol sicrhau bod gweithdrefn ar gyfer gwneud y gŵyn yn ysgrifenedig.

51. Hefyd rhaid cadw cofnod o unrhyw gŵyn, gan gynnwys a gafodd y cwynion eu datrys yn ystod y cam rhagarweiniol neu a aethpwyd â hwy i wrandawiad gan banel ac unrhyw gamau a gymerwyd gan yr ysgol o ganlyniad i’r cwynion hynny ac a gafodd y cwynion hynny eu cadarnhau.

## Y Rheoliadau Gwybodaeth

52. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003. Maent yn ymwneud â cheisiadau i gofrestru ysgolion annibynnol o dan adran 160(1) o Ddeddf Addysg 2002 a gwybodaeth sydd i'w darparu yn gyfnodol gan berchnogion ysgolion annibynnol o dan adran 168 o'r Ddeddf honno.

53. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth yn nodi'r wybodaeth y mae angen i berchennog ei darparu i Lywodraeth Cymru cyn cofrestru ysgol annibynnol. Mae hyn ar ffurf cais electronig sy'n cael ei gynnal ar wefan Llywodraeth Cymru.

54. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau Gwybodaeth yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno gan berchennog ysgol annibynnol ddatganiad cychwynnol o fewn 90 o ddiwrnodau i'r dyddiad derbyn neu, os yw'n ddiweddarach, i gais gan yr awdurdod cofrestru. Mae Rhan 3 o'r Atodlen yn rhagnodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad cychwynnol.

55. Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno gan berchennog ysgol annibynnol ddatganiadau blynyddol i'r awdurdod cofrestru (hy Gweinidogion Cymru). Mae Rhan 4 o'r Atodlen yn rhagnodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad blynyddol.

56. Mae rheoliad 6 yn darparu y caiff awdurdod cofrestru, os yw wedi ei fodloni bod perchennog ysgol annibynnol wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn rheoliad 4 neu 5, ddileu'r ysgol o'r gofrestr. Mae rheoliad 7 yn darparu ei bod yn drosedd i berchennog ysgol annibynnol fethu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn rheoliad 4 neu 5.

57. Mae rheoliad 8 yn dirymu Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003. Mae rheoliadau 9, 10 ac 11 yn dirymu offerynnau a darpariaethau eraill sy'n diwygio naill ai Rheoliadau 2003 neu Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

58. Mae rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer Rheoliadau 2003 mewn achosion pan fo'n ofynnol dychwelyd datganiad cychwynnol neu ddatganiad blynyddol cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

## Y Rheoliadau Gwahardd

59. Mae'r Rheoliadau Gwahardd yn Rheoliadau newydd sydd â'r nod o helpu i gadw plant sy'n dysgu mewn ysgolion annibynnol yn ddiogel drwy sicrhau nad yw rhai pobl, fel yr amlinellir isod, yn cymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol. Maent yn rhagnodi ar ba seiliau y caniateir i gyfarwyddyd gael ei roit o dan adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 ("cyfarwyddyd adran 167A") sy'n gwahardd person rhag cymryd

rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol yng Nghymru, neu sy’n gosod cyfyngiad ar allu person i wneud hynny.

60. Mae'r Rheoliadau Gwahardd yn datgan y caniateir i gyfarwyddydau adran 167A gael eu rhoi mewn cysylltiad â pherson sydd wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol, sydd wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad â throsedd berthnasol neu sy’n ddarostyngedig i ganfyddiad perthnasol mewn cysylltiad â throsedd berthnasol, neu sydd wedi ymgymryd ag ymddygiad perthnasol, os yw’r awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru) yn ystyried bod y person felly'n anaddas i gymryd rhan yng ngwaith rheoli ysgol annibynnol.

61. Mae’r Rheoliadau Gwahardd hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn ar gyfer rhoi cyfarwyddyd adran 167A, yr amgylchiadau y caniateir i gyfarwyddyd adran 167A gael ei amrywio neu ei ddirymu oddi tanynt a darpariaeth ynghylch apelau mewn cysylltiad â chyfarwyddydau adran 167A.

62. Cyhoeddir canllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol ochr yn ochr â'r Rheoliadau sy'n dod i rym yn gynnar yn 2024.

**Pwy fydd yn cael eu heffeithio gan y ddeddfwriaeth?**

63. Mae'r newidiadau rheoleiddio yn effeithio ar berchnogion ysgolion annibynnol, eu staff, eu dysgwyr a’u rhieni. Byddant hefyd yn effeithio ar Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru pan fyddant yn cynnal eu harchwiliadau ac yn asesu cydymffurfedd â’r safonau.

64. Ar gyfer perchnogion, bydd y newidiadau rheoleiddio yn adlewyrchu mai’r perchennog yw’r endid atebol. Maent yn codi lefel y disgwyliad o ran ansawdd yr addysg a ddarperir drwy newid ansawdd a safon yr addysgu, o ‘digonol’, ‘boddhaol’ a ‘priodol’ i lefel a fydd yn cyrraedd safon ‘da’ neu ‘effeithiol’. Golyga hyn y bydd gwell darpariaeth yn ofynnol er mwyn sicrhau cydymffurfedd. Bydd yn ofynnol i’r perchennog sicrhau bod pawb sydd â chyfrifoldebau arwain a rheoli yn yr ysgol yn mynd ati i hybu llesiant eu disgyblion, gan gynyddu lefelau iechyd a diogelwch, lles a llywodraethu.

65. Mae'r Rheoliadau Safonau yn cyflwyno gofyniad i berchnogion gadw cofnod o hyfforddiant diogelu a ddarperir i staff.

66. Mewn perthynas ag athrawon, mae'r Rheoliadau Safonau yn gosod gofyniad newydd o dan Safon 3 (lles, iechyd a diogelwch disgyblion) ac yn creu amgylchedd ym mhob ysgol lle mae gan bawb y lefel briodol o hyfforddiant fel eu bod yn deall polisi diogelu’r lleoliad addysg; yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gwybod sut mae ymateb yn effeithiol pan fydd ganddynt bryder neu pan fydd gwybodaeth yn cael ei datgelu iddynt.

67. Ar gyfer dysgwyr, mae mesurau diogelu ychwanegol gan bod y Rheoliadau Safonau yn cyflwyno gofyniad i ddiweddaru gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd cyflwyno gwiriadau rheolaidd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhoi ffocws ar ddiogelu a phwysigrwydd cael mesurau rheolaidd ar waith sy'n cryfhau diogelwch dysgwyr yn barhaus. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ysgolion byrddio, lle mae'r risgiau yn uwch gan fod y disgyblion sy'n byrddio yn aml yn byw yn bell oddi wrth eu teuluoedd, o dan awdurdod oedolion yn yr ysgol, ac yn ddibynnol arnynt am eu lles.

68. Mae'r Rheoliadau Safonau yn rhoi ffocws ar yr angen i adeiladau a'r holl gyfleusterau yn yr ysgol fod yn hygyrch, gan sicrhau y gall pob dysgwyr eu defnyddio'n gyfartal. Dylai disgyblion â gofynion arbennig hefyd gael mynediad at ddysgu a gweithgareddau allgyrsiol ar sail gyfartal â phob dysgwr arall.

69. Mae'r Rheoliadau Safonau yn cryfhau trefniadau llywodraethu'r ysgol ac yn gwella lefel yr wybodaeth sydd ar gael i ddisgyblion a rhieni drwy ddiwygio'r geiriad i'w gwneud yn glir mai'r perchennog sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio â'r safonau. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gyhoeddi gweithdrefn gwyno yr ysgol ar ei gwefan neu, pan na fo hynny'n bosibl, i ddarparu copi o'r weithdrefn i ddisgyblion, disgyblion sy'n byrddio a'u rhieni a'i roi ar gael i ddarpar ddisgyblion, darpar ddisgyblion sy'n byrddio a rhieni darpar ddisgyblion neu ddarpar ddisgyblion sy'n byrddio. Yn ogystal, rhaid i ysgolion gadw cofnod o unrhyw gamau a gymerwyd ganddynt o ganlyniad i'r cwynion hynny ac a gawsant eu cadarnhau.

70. Mae'r gyfres o Reoliadau Ysgolion Annibynnol yn cyd-fynd â chyflwyno Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023, sy'n rhoi'r pŵer i Gyngor y Gweithlu Addysg i reoleiddio grwpiau ychwanegol o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys athrawon mewn ysgolion annibynnol, a'u cynnwys yng nghofrestr y gweithlu addysg. Gyda'i gilydd, dylai hyn roi lefel uchel o hyder i'r cyhoedd bod plant a phobl ifanc sy'n dysgu mewn ysgolion annibynnol yn gwneud hynny mewn amgylchedd diogel.

## Ymgysylltu â'r cyhoedd

71. Cynhaliwyd Cais cychwynnol am Dystiolaeth rhwng 9 Rhagfyr 2021 a 4 Chwefror 2022 a chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau drafft rhwng 22 Mai a 17 Gorffennaf 2023.

<u>Cais am Dystiolaeth</u>

72. Ym mis Hydref 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyniad yng nghynhadledd Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru i dynnu sylw at ein

cynlluniau i adolygu'r Rheoliadau. Yn dilyn hyn cyhoeddwyd Cais am Dystiolaeth ar 9 Rhagfyr 2021, a chynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu rhithwir ategol ag ysgolion annibynnol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill fel y Comisiynydd Plant, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

73. Daeth cyfnod y Cais am Dystiolaeth i ben ar 4 Chwefror 2022. Cafwyd un ar ddeg o ymatebion, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion hynny ar 30 Mawrth 2022. Dangosodd prif ganfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth bod y mwyafrif yn cytuno bod angen diweddaru'r Rheoliadau. Dangoswyd hefyd mai'r prif feysydd pryder oedd cryfhau Rheoliadau cysylltiedig â llywodraethu a rheoli ysgolion, a sicrhau diogelwch a llesiant dysgwyr. Roeddent yn cefnogi'r cynigion ar gyfer:

- cryfhau'r gofynion sy'n ymwneud â hyfforddiant diogelu ar gyfer staff, arweinwyr ysgolion, a dysgwyr;
- ystyried pwy ddylai ymgymryd â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chynnal y gwiriadau hynny yn fwy aml, hy bob tair blynedd;
- cryfhau'r Rheoliadau i sicrhau bod ysgolion yn mynd ati i hybu diogelu dysgwyr;
- diwygio'r geiriad yn y safonau i'w gwneud yn glir mai'r perchennog sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio;
- trafod y gwaith o ddatblygu fframwaith ymyriadau a chamau gorfodi rhwng yr adeg pan na fydd cynllun gweithredu yn datrys y methiant i gydymffurfio â'r safonau a'r adeg pan fydd ysgol yn cael ei thynnu oddi ar y gofrestr;
- cysoni'r Rheoliadau Ysgolion Annibynnol gyda'r gofyniad i staff gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg; a
- gwneud set newydd o Reoliadau, sef Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd rhan mewn Rheoli) (Cymru).

74. Ym mis Medi 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyniad arall am y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yng nghynhadledd Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru.

75. Comisiynwyd Estyn gan Lywodraeth Cymru i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Ionawr 2023, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o'r newidiadau arfaethedig ac annog y rhai a oedd yn bresennol i leisio eu barn yn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Yn ystod y sesiynau hyn, rhoddwyd manylion y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i'r rhanddeiliaid, ynghyd â chyfle i wneud sylw arnynt.

## 5. Ymgynghori

Ymgynghoriad Ffurfiol

76. Yn ogystal â'r sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023 a'r Cais blaenorol am Dystiolaeth, cynhaliwyd ymgynghoriad wyth wythnos rhwng 22 Mai a 17 Gorffennaf 2023. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys ysgolion annibynnol, awdurdodau lleol, Comisiynydd Plant Cymru, Estyn a'r undebau athrawon.

77. Denodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 19 o ymatebion wedi'u cwblhau, 10 ar-lein a 9 ar e-bost, o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys ysgolion unigol, rhiant a chyrff mwy. Yn ogystal, cafwyd 20 o ymatebion wedi'u cwblhau'n rhannol.

78. Cyflwynwyd dau ymateb a gwblhawyd yn ddienw. Pan fo ymatebwyr wedi gofyn i'w manylion gael eu cadw'n gyfrinachol, mae'r cais hwnnw wedi'i anrhydeddu. Dyma'r cyrff a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi

- Comisiynydd Plant Cymru
- Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol
- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
- Estyn
- Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Cymru

79. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r fframwaith rheoleiddio. Mae rhai newidiadau cyfyngedig wedi'u gwneud i'r Rheoliadau drafft o ganlyniad i'r ymatebion, er enghraifft, ymgorffori yn Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 angen i berchnogion roi sylw i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae diwygiadau i'r canllawiau gweithredol a fydd yn ategu'r Rheoliadau hyn yn ymdrin ag awgrymiadau eraill. Lluniwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a byddant yn cael eu cyhoeddi maes o law.

**Risgiau peidio â gwneud yr is-ddeddfwriaeth hon**

80. Pe na bai’r gyfres o Reoliadau a’r canllawiau ategol yn cael eu gwneud, byddai’r pryderon mewn perthynas â chadernid mesurau diogelu a llywodraethu ac ansawdd y rheoli mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru yn parhau.

81. Byddai methiant i gryfhau ansawdd safonau addysg yn y Rheoliadau Safonau yn rhoi dysgwyr mewn risg o ddeilliannau gwael; byddai methu mynd i’r afael â’r bylchau mewn mesurau diogelu a chryfhau llywodraethu ysgolion yn gallu peryglu lles, iechyd a diogelwch plant a phobl ifanc sy’n dysgu mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru. Bydd y

newidiadau deddfwriaethol gyda'i gilydd yn ceisio codi safonau a helpu i fynd i'r afael â'r bwlch deddfwriaethol sy'n bodoli i Weinidogion Cymru ar hyn o bryd o fod heb bwerau ymyrryd digonol.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

82. Mae ugain mlynedd bron ers i'r mwyafrif o Reoliadau llywodraethu ysgolion annibynnol gael eu gwneud. Dros y cyfnod hwnnw, mae nifer o ddiffygion wedi dod i sylw Llywodraeth Cymru. Mae arolygiadau craidd gan Estyn wedi nodi achosion niferus o ysgolion yn methu cydymffurfio â'r safonau yn Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 mewn perthynas ag ansawdd yr addysg a ddarperir, a lles, iechyd a diogelwch disgyblion.

83. Mae'r safon sy'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion yn canolbwyntio ar ba mor bwysig yw ysgol sy'n darparu amgylchedd diogel ar gyfer dysgu a datblygu. Mae rhai o'r pethau y mae ysgolion sy'n methu cydymffurfio â'r safon hon yn eu gwneud yn cynnwys peidio â dadansoddi a lliniaru risgiau i ddisgyblion, peidio â sefydlu na gweithredu polisïau sy'n darparu ar gyfer lles disgyblion pan fyddant yn yr ysgol, a pheidio â sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at adnoddau lles y tu allan i oriau ysgol. Mae'r bylchau yn y trefniadau diogelu presennol a'r cysylltiadau â'r gwendidau yn nhrefniadau llywodraethu ysgolion wedi bod yn achos pryder penodol.

84. Mae'r diffygion hyn yn y fframwaith rheoleiddio wedi eu cydnabod drwy ymatebion i adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o sut mae Llywodraeth Cymru yn arfer ei swyddogaethau o dan adran 72 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, lle cafodd yr angen am ddiwygio sylfaenol i ddiweddaru'r system reoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru.

85. Cafodd yr un ymrwymiad i adolygu'r Rheoliadau Ysgolion Annibynnol ei wneud yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2021.

86. Edrychodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ar achosion o gam-drin plant yn rhywiol mewn ysgolion preswyl yn y sector a gynhelir a'r sector annibynnol. Roedd y dystiolaeth a roddwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2020 yn cydnabod bod gwendidau yn y fframwaith rheoleiddio presennol. Cyhoeddodd yr ymchwiliad ei adroddiad ar 1 Mawrth 2022 a, lle y bo'n gymwys, mae'r argymhellion wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Rheoliadau hyn.

87. Yn unol â bwriad y polisi, yr adborth a gafwyd, a'r dystiolaeth a gasglwyd yn rhan o'r Cais am Dystiolaeth, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

88. Mae rhai o'r Rheoliadau wedi'u diwygio ers iddynt gael eu gwneud, ond mae rhai wedi dyddio ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu'r arferion da, y canllawiau a'r polisïau cyfredol. Mae diwygiadau i fynd i'r afael â'r bylchau hyn yn cael eu gwneud, er enghraifft, dileu cyfeiriadau at ddogfennau penodol yn ôl enw o'r Rheoliadau ac yn eu lle roi cyfeiriadau at fwriad polisi y canllawiau er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau'n addas

at y dyfodol a chadw’r geiriad yn gyfredol. Mae rhywfaint o’r geiriad yn y Rheoliadau hefyd wedi’i newid i adlewyrchu safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd mewn perthynas ag iaith yn ymwneud â rhywedd.

## 6. Yr opsiynau

### *Opsiwn 1: Gwneud dim*

89. Pe bai’r fframwaith rheoleiddio yn parhau heb ei newid, mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod potensial o hyd i beryglu diogelwch dysgwyr. Rhaid i ddiogelu plant a phobl ifanc ym mhob lleoliad fod yn flaenoriaeth ac mae diwygio’r Rheoliadau yn un cam tuag at hyn. Hefyd, byddai risg o niweidio enw da Gweinidogion Cymru pe na baent yn gweithredu ar argymhellion Comisiynydd Plant Cymru a’r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol i wella trefniadau diogelu.

### *Opsiwn 2: Gwneud rhai newidiadau deddfwriaethol*

90. Mae gwneud rhai newidiadau deddfwriaethol yn opsiwn. Fodd bynnag, byddai’r effaith yn dibynnu ar ba newidiadau yn union a wneir. Gallem, er enghraifft, ganolbwyntio yn syml ar gael perchnogion i gadw cofnod o hyfforddiant a ddarperir i staff, cyrff llywodraethu a gwirfoddolwyr. Neu, gallem ganolbwyntio ar gael ysgolion i gyhoeddi eu dyddiadau tymhorau ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol ar eu gwefan. Er hynny, rhaid inni ganolbwyntio ar ddiogelu dysgwyr fel ein prif flaenoriaeth yma; a dyna ydym wedi’i ddehongli fel ‘gwneud *rhai* newidiadau deddfwriaethol’, drwy wiriadau rheolaidd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a hyfforddiant diogelu i staff.

### *Opsiwn 3: Gwneud y ddeddfwriaeth yn llawn*

91. Drwy ddiwygio’r Rheoliadau yn llawn, bydd Llywodraeth Cymru nid yn unig yn cryfhau deddfwriaeth 2003, ond bydd hi hefyd yn gallu mynd i’r afael ag argymhellion Comisiynydd Plant Cymru a’r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn ysgolion annibynnol yn cael eu diogelu’n briodol a bod safonau dysgu a llywodraethu uchel yn bodoli yn y lleoliad hwnnw.

## 7. Costau a manteision

### *Opsiwn 1: Gwneud dim*

*Costau*

92. Dyma'r opsiwn sylfaenol ac fel y cyfryw, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.  Mae’r risgiau o ran cyllid ac enw da sy’n gysylltiedig ag anwybyddu’r diffygion hysbys hyn yn y

gyfundrefn reoleiddio bresennol, ac argymhellion Comisiynydd Plant Cymru a'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, yn rhy uchel i'w hanwybyddu. Mae hyn yn arbennig o wir pe bai plentyn neu berson ifanc yn cael ei niweidio a hithau yn hysbys bod y ddeddfwriaeth sy'n fod i'w diogelu yn ddiffygiol. Ni fyddai'r opsiwn hwn felly yn bodloni bwriad y polisi.

*Manteision*

93. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn codi o'r opsiwn hwn.

***Opsiwn 2: Gwneud rhai newidiadau deddfwriaethol***

*Costau*

94. Mae costau gwneud rhai newidiadau deddfwriaethol yn debyg ar y cyfan i gostau gwneud yr ystod lawn o newidiadau deddfwriaethol o ran amser swyddogion Llywodraeth Cymru a hefyd costau i'r sector am bethau fel ymgyfarwyddo a gweithredu. Byddai'r costau hyn, a nodir yn Opsiwn 3, yn effeithio ar wahanol ysgolion mewn gwahanol ffyrdd, gan ddibynnu ar ba mor agos i gydymffurfio â gofynion y safonau diwygiedig y maent hwy eisoes.

*Manteision*

95. Mae manteision cyflwyno rhai newidiadau deddfwriaethol yn debyg i'r rhai a nodir yn Opsiwn 3, ond ar raddfa lai. Byddai gwneud rhai newidiadau cyfyngedig i'r gyfundrefn reoleiddio bresennol drwy, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn fwy aml, yn gallu arwain at welliannau o ran diogelwch uwch i ddysgwyr. Er hynny, ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r diffygion a amlygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru nac yn adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

***Opsiwn 3: Gwneud y newidiadau deddfwriaethol yn llawn***

*Costau:*

96. Mae nifer o wahanol gostau yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

97. Yn gyntaf, mae costau sydd i'w priodoli i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rheoliadau a'r canllawiau cysylltiedig, yn enwedig y gost yr aiff swyddogion polisi a'r gyfraith iddi wrth eu datblygu a chost y wefan sy'n lletya'r canllawiau hyn. Mae'r canllawiau cofrestru a gweithredu sy'n cefnogi'r Rheoliadau wedi'u datblygu o dan gontract ag Estyn sy'n dod i gyfanswm o £30,000. Mae'r contract hwn yn cwmpasu'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau, cynnal nifer o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth rhanddeiliaid a llunio'r ddogfen ymgynghori ar y newidiadau rheoleiddiol drafft i'r Rheoliadau Ysgolion Annibynnol. O ran y costau am amser

swyddogion i ddatblygu'r Rheoliadau hyn a'r dogfennau ategol, bydd y cyllidebau presennol yn talu am y rhain.

98. Mae'r costau am yr amser y bydd swyddogion yn ei dreulio yn cyfieithu'r Rheoliadau drafft, y ddogfen ymgynghori a'r canllawiau cysylltiedig yn cael eu talu o gyllidebau presennol Llywodraeth Cymru, yn benodol o gyllideb yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol ac o ganlyniad yn dod o fewn y gweithgarwch rhedeg busnes arferol.

99. Ni fydd effeithiau'r Rheoliadau drafft yn arwain at unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ond ni fydd unrhyw gostau i'r ysgolion annibynnol eu hunain. Bydd y rhain yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â'r angen i berchnogion, penaethiaid ac athrawon ymgyfarwyddo â'r canllawiau. Fodd bynnag, er y bydd angen i benaethiaid a pherchnogion ymgyfarwyddo â gofynion y Rheoliadau newydd, nid yw llywodraethwyr yn cael eu cyflogi fel arfer. O ran athrawon a phenaethiaid, mae eu cyflogau hwy yn gost sefydlog.

100. Nid yw'n bosibl nodi costau manwl yn gywir ar gyfer y gwaith ymgyfarwyddo hwnnw gan fod pob ysgol annibynnol yn ymrwymo i berthynas gontractiol â'i staff ac felly bydd costau staff yn amrywio o ysgol i ysgol. Yn yr un modd, gan fod ysgolion annibynnol yn amrywio'n fawr o ran maint, nid yw'n bosibl nodi'n fanwl nifer cyfartalog y staff fesul ysgol. Fodd bynnag, mae swyddogion o'r farn na fyddai ymgyfarwyddo â gofynion y Rheoliadau newydd yn cymryd mwy na hanner awr o amser perchennog, pennaeth neu athro cyffredin a dylid ystyried hynny yn rhan o weithgareddau busnes fel arfer.

101. O ran y costau sy'n gysylltiedig â mangreoedd, efallai y bydd angen i rai ysgolion annibynnol ymbaratoi neu addasu eu mangreoedd fel eu bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer hygyrchedd i bob disgybl fel y nodir yn y Rheoliadau Safonau. Bydd hyn yn amrywio o ysgol i ysgol gan ddibynnu ar eu trefniadau presennol; ar gyfer ysgolion sydd eisoes yn hygyrch bydd y costau yn isel, ond bydd y costau'n llawer uwch i'r rhai sydd angen gwneud addasiadau rhesymol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cyfalaf i ysgolion annibynnol. Busnesau preifat ydynt ac nid ydynt yn gymwys i wneud cais am gyllid cyfalaf drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

102. Bydd costau rheolaidd yn cynnwys hyfforddiant – gyda phob aelod o staff, er enghraifft, angen hyfforddiant diogelu a chydymffurfio â phob gofyniad statudol a mandadol arall i ddiogelu lles, iechyd a diogelwch disgyblion; staff mewn rolau arwain a rheoli yn mynd ati i hybu llesiant dysgwyr; a pherchnogion yn cynnal cofnod o'r hyfforddiant diogelu a ddarperir i staff. Fodd bynnag, mae eisoes ddisgwyliad o dan Safonau 2003 y bydd gan ysgolion annibynnol brosesau addas yn eu lle i sicrhau bod plant yn ddiogel, felly disgwylir mai costau bach iawn fydd y rhain. Yn ogystal, mae hyn eisoes yn cael ei ystyried yn arfer dda gan lawer o ysgolion sydd eisoes yn gweithio i'r safon hon. Fel enghraifft o

gostau nodweddiadol, mae gan un ysgol annibynnol o faint canolig drefniadau eisoes yn eu lle i hyfforddi tri arweinydd diogelu a dau arweinydd bugeiliol ar gost o £370 y pen, gyda'r gost yn gyfanswm o £1850.

103. Bydd y Rheoliadau yn rhoi beichiau gweinyddol ychwanegol cyfyngedig ar ysgolion annibynnol – er enghraifft, bydd y Rheoliadau Safonau yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi dyddiadau tymhorau ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol ar eu gwefannau a'i gwneud yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi eu gweithdrefnau ymdrin â chwynion ar eu gwefannau yn ogystal â chadw cofnodion o'r hyfforddiant diogelu y mae staff yn ymgymryd ag ef. Ni ddisgwylir i hyn greu llawer o waith ychwanegol, gan gymryd ychydig funudau o amser gweinyddwr, yn enwedig o ystyried bod y trefniadau hyn eisoes yn eu lle gan y rhan fwyaf o ysgolion annibynnol.

104. Un maes amlwg lle bydd costau ychwanegol i ysgolion annibynnol yw o ran ychwanegu at y rhai a ddylai fod yn ddarostyngedig i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chynnal y gwiriadau hynny yn fwy aml. Bydd y Rheoliadau Safonau yn cyflwyno gofyniad i adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd, sy'n arwain at gostau i'r ysgol.

105. Nid yw'n bosibl nodi'n union faint fydd y costau ychwanegol ar draws y sector, oherwydd mae ymestyn a chynyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eisoes yn arfer effeithiol mewn nifer o ysgolion annibynnol. Er enghraifft, efallai y bydd rhai ysgolion eisoes yn adnewyddu gwiriadau ar staff bob tair blynedd. Ar gyfer yr ysgolion hyn, ychydig o gostau, os o gwbl, fydd yn deillio o'r Rheoliadau diwygiedig hyn. Mewn ysgolion eraill nad yw'r trefniadau hyn ar waith ganddynt eisoes, bydd y costau yn gyfatebol uwch. Fodd bynnag, gallwn allosod ffigurau; ar gyfer ysgol gymharol fawr gyda thua 120 o staff, byddai'r costau ar gyfer defnyddio gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd yn £4680.00 ar y cyfraddau cyfredol, tra byddai'r costau yn £195.00 i ysgol fach gyda 5 aelod o staff. Ar gyfer yr ysgol o faint mwy, mae cyfanswm y gost yn llawer llai na hanner y ffi diwrnod blynyddol ar gyfer disgybl felly ni fyddai'n gost anghymesur.

106. Mae'r Rheoliadau Safonau yn cyflwyno gofyniad newydd i adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob tair blynedd. Er hynny, ni fydd Llywodraeth Cymru yn rhagnodi sut y gwneir hynny. Felly, bydd hi'n ddyletswydd ar bob ysgol i benderfynu a wneir y gwiriadau drwy wasanaeth diweddaru y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (ar hyn o bryd yn gyfanswm o £13 y person, y flwyddyn = yn cyfateb i £39 dros 3 blynedd) ynteu drwy wiriad newydd bob tair blynedd (ar hyn o bryd yn gyfanswm o £44 y person, yn cyfateb i £14.66 y flwyddyn).

107. Felly mae’n anodd iawn cyfrifo’r costau gwirioneddol gan fod cynifer o newidynnau mewn ysgolion unigol ar draws y sector. Er enghraifft, bydd y gost yn amrywio yn dibynnu ar nifer y staff a gyflogir, gan y bydd rhai ysgolion mwy o faint a chanddynt niferoedd mawr o staff angen y gwiriadau hyn, ac ysgolion eraill llai o faint a chanddynt lawer llai o staff angen y gwiriadau. Hefyd, efallai y bydd angen i oblygiadau o ran cost y gwiriadau ychwanegol hyn gael eu hystyried ochr yn ochr â ffactorau cysylltiedig ag incwm ffioedd a osodir yn eu herbyn, fel lleoliadau sydd, er enghraifft, yn codi ffioedd uwch, â statws elusennol, yn gweithredu fel cwmni nid-er-elw, etc.

108. Bydd costau monitro a gorfodi cyfyngedig i Estyn, yn gysylltiedig â sicrhau bod ysgolion annibynnol yn cydymffurfio â’r gofynion newydd. Fodd bynnag, gan ei bod hi eisoes yn ofynnol iddo wirio yn erbyn cydymffurfedd â’r gyfundrefn reoleiddio bresennol, mae Estyn wedi cadarnhau mai bach iawn fydd unrhyw gostau ychwanegol.

109. Dim ond ychydig iawn o fanylion o ran effeithiau cost y dull arfaethedig ar gyfer ysgol nodweddiadol oedd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae swyddogion hefyd wedi trafod y mater hwn gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen Penaethiaid Ysgolion Annibynnol, (sy'n cynnwys penaethiaid mewn ysgolion annibynnol ledled Cymru) ac wedi cadarnhau y byddai'r effaith yn amrywio o ysgol i ysgol, ond bod llawer o'r hyn a gynigiwyd eisoes yn cael ei ystyried yn arfer dda mewn llawer o ysgolion ac felly eisoes yn cael ei wneud.

110. Bydd costau i ysgolion annibynnol o ganlyniad i’r newidiadau deddfwriaethol yn y gyfres o Reoliadau, ond yr ysgolion eu hunain sydd i sicrhau eu bod yn gweithredu eu busnesau mewn ffordd sy’n cyd-fynd â gofynion y Rheoliadau. Mae hi hefyd yn hollbwysig nodi bod y gwelliannau i brosesau llywodraethu ysgolion a’r gwell trefniadau diogelu i blant a phobl ifanc mewn ysgolion annibynnol yn llawer pwysicach na’r costau.

*Manteision:*

111. Mae manteision cyflwyno’r Rheoliadau yn llawn yr un fath ag a nodwyd yn flaenorol.

112. Mae diwygio’r Rheoliadau yn un o elfennau hanfodol sicrhau y cynhelir ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y sector ysgolion annibynnol yng Nghymru; yn ogystal â diogelu buddiannau plant a phobl ifanc sy’n dysgu yn y lleoliad annibynnol. Ar hyn o bryd mae 82 o ysgolion annibynnol wedi'u cofrestru i weithredu yng Nghymru. Mae’r nifer hwn wedi’i rannu’n weddol gyfartal rhwng ysgolion prif ffrwd a’r rhai sy’n darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae’r ystod oedran y mae’r ysgolion hyn yn darparu ar ei chyfer yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae rhai yn derbyn disgyblion hyd at 18 oed, ac eraill ond yn darparu ar gyfer

ystodau oedran penodol. Ceir amrywiadau sylweddol o ran maint hefyd. Mae'r ysgol leiaf wedi'i chofrestru ar gyfer uchafswm o bedwar disgybl, a'r fwyaf ar gyfer hyd at 1,500 o ddysgwyr. Mae cyfanswm y disgyblion yn y sector annibynnol yng Nghymru yn oddeutu 10,000 gyda rhyw 850 o athrawon cymwysedig a 1,200 o staff cymorth fel cynorthwywyr addysgu. Bydd cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio diwygiedig yn rhoi sicrwydd i ddisgyblion a rhieni bod lleoliad yr ysgol annibynnol yn ddiogel. Hefyd, bydd y Rheoliadau yn helpu i ennyn hyder ymysg y gweithlu ei hun o ran cynnal safonau proffesiynol. Mae hynny yn ei dro yn cyfrannu at wella safon yr addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru.

**Crynodeb o ganfyddiadau proses yr Asesiad Effaith Integredig**

**Y Gymraeg**

113. Nid oes disgwyl i'r newidiadau deddfwriaethol i'r gyfres o Reoliadau Ysgolion Annibynnol gael unrhyw effeithiau, negyddol na chadarnhaol, ar y Gymraeg. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i lunio.

**Hawliau Plant**

114. Bydd y newidiadau deddfwriaethol yn arwain at well trefniadau diogelu mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru ac felly yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel. Ychwanegwyd gofyniad yn y Rheoliadau Safonau bod rhaid i berchnogion ysgolion annibynnol roi sylw i ofynion Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid oes unrhyw oblygiadau negyddol wedi'u nodi. Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i lunio.

**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

115. Plant a phobl ifanc yw'r grŵp a fydd yn elwa fwyaf ar y trefniadau diogelu ychwanegol a roddir yn eu lle drwy'r newidiadau deddfwriaethol hyn, a fydd yn sicrhau bod mesurau cofrestru a chydymffurfio llym a gaiff eu monitro yn cael eu gorfodi drwy ddeddfwriaeth ac archwiliad. Bydd y newidiadau rheoleiddio hyn yn helpu i sicrhau bod merched a menywod ifanc ac aelodau o'r gymuned LHDTRh, sydd ymysg y bobl sydd fwyaf tebygol o wynebu pryderon diogelwch, sy'n dysgu mewn lleoliad ysgol annibynnol, wedi'u diogelu'n well yn sgil trefniadau diogelu mwy effeithiol. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar unrhyw ran o gymdeithas â nodweddion gwarchodedig wedi'u nodi. Hefyd, bydd y newidiadau deddfwriaethol yn cael effaith gadarnhaol ar blant anabl gan

eu bod yn cyflwyno gofyniad i fangreoedd ysgol fod yn gwbl hygyrch i bob disgybl. Mae Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi’i gwblhau.

**Preifatrwydd**

116. Mae ysgolion annibynnol eisoes yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd am eu gweithrediadau fel rhan o'r cyfrifiad ysgolion blynyddol. Fodd bynnag, bydd y gyfres o Reoliadau Ysgolion Annibynnol yn gosod gofynion newydd i ddarparu gwybodaeth. Mae'r Rheoliadau Safonau yn ei gwneud yn ofynnol cael set lawn o wiriadau - ID, hawl i weithio yn y DU, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau diogelu ychwanegol ar gyfer y rhai sydd wedi byw y tu allan i'r DU ar gyfer staff a'r perchennog (wedi'u dadansoddi yn benodol i gynnwys perchnogion sy'n unigolion a chadeirydd ac aelodau bwrdd y corff corfforedig sy'n berchennog ysgol annibynnol). Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth newydd gael ei chyflwyno ar gais mewn perthynas â'r perchennog (unigolion ac aelodau o gyrff corfforaethol) gan gynnwys enwau blaenorol, rhif YG, cyfeiriad e-bost, hanes cyflogaeth, buddiannau busnes, geirdaon. Gofynnir am y rhain yn bennaf drwy'r datganiad cychwynnol, y cais cofrestru a'r datganiad cyfrifiad blynyddol.

117. Bydd y cais am ddata ychwanegol gan ysgolion yn y sector ysgolion annibynnol yng Nghymru yn sicrhau bod pob plentyn sy'n mynychu lleoliadau ysgol annibynnol yng Nghymru yn parhau i fod yn ddiogel ac yn iach ar eu taith addysgol, a bod gan ysgolion o'r fath drefniadau llywodraethu priodol ar waith. Byddem yn disgwyl i ysgolion fod yn cadw'r wybodaeth hon eisoes fel arfer dda yn ystod eu prosesau recriwtio, sy'n atgyfnerthu ymhellach bod staff a gyflogir gan yr ysgol wedi eu fetio yn iawn cyn dechrau eu cyflogaeth. Er na fyddwn yn prosesu'r data hyn mewn unrhyw ffordd arall, mae'n rhoi sicrwydd inni yn ystod y broses ymgeisio gychwynnol, ynghyd â sicrwydd pellach wrth dderbyn y datganiad cychwynnol a'r datganiadau cyfrifiad blynyddol.

118. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â'r gofyniad i ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Erthygl 36(4) o GDPR y DU, ac mae swyddfa'r Comisiynydd wedi cadarnhau eu bod yn fodlon ar y cynigion. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei chadw a'i rheoli yn unol â gofynion y GDPR.

**Asesiad o’r Effaith ar Gyfiawnder**

119. Mae’r newidiadau deddfwriaethol i’r Rheoliadau Ysgolion Annibynnol yn gyfystyr â dirymu a disodli dwy set o Reoliadau a gwneud un set bellach. Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol newydd yn cael ei chyflwyno, nac unrhyw droseddau yn cael eu creu, eu dileu na’u

diwygio. Mae lle i apelau newydd i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ar wneud y Rheoliadau Gwahardd gan y bydd apelau adran 167B yn gymwys. Ni fydd y gyfres o Reoliadau yn arwain at unrhyw effaith arall ar y system gyfiawnder. Disgwylir i nifer y cyfarwyddiadau a wneir, ac apelau dilynol, fod yn hynod o isel. O ganlyniad, ni ystyrir bod angen Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder.

## 8. Asesu'r gystadleuaeth

120. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran y farchnad yn gysylltiedig â gwneud y newidiadau deddfwriaethol hyn. Bydd effaith ariannol gyfyngedig ar ysgolion annibynnol, ond nid oes unrhyw effaith o safbwynt cystadleuol.

## 9. Adolygiad ar ôl gweithredu

121. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Estyn i fonitro, adolygu a gwerthuso'r Rheoliadau yn dilyn dyddiad dod i rym y newidiadau rheoleiddiol hyn. Nod y ffordd hon o weithredu fydd mesur effeithiolrwydd y Rheoliadau diwygiedig a gweld eu gwir effaith ac, yn benodol, a yw nodau'r polisi yn cael eu cyflawni.

122. Fel yr awdurdod cofrestru, caiff Llywodraeth Cymru, unrhyw amser, ei gwneud yn ofynnol i Estyn arolygu unrhyw ysgol gofrestredig mewn perthynas ag unrhyw un neu bob un o'r Safonau Ysgol Annibynnol. Bydd hi'n ofynnol i Estyn adrodd i Lywodraeth Cymru ynghylch i ba raddau y mae'r ysgol yn bodloni'r Safonau Ysgolion Annibynnol a threfnu i gyhoeddi'r adroddiad arolygu.

123. Diben yr adolygiad fydd asesu pa un a lynir wrth y Rheoliadau ac a ydynt yn cael eu gweithredu'n briodol. Bydd yr adolygiad yn un parhaus oherwydd, ym mhob cyfarfod tymhorol rhwng Llywodraeth Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru, bydd yr arolygiaeth yn darparu rhaglen o'r arolygiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer ysgolion annibynnol ar gyfer y tymor a ganlyn. Ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru, mae hyn yn cynnwys ysgolion arbennig preswyl a byrddio a, phan fo modd, cartrefi gofal ar gyfer plant sy'n gysylltiedig â darpariaeth ysgolion arbennig annibynnol.

124. Bydd Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn darparu cyngor bob tymor ar gyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiadau arolygu adran 163 a nodiadau ymweliadau monitro blynyddol. Bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ystyried unrhyw faterion dadleuol a dechrau ar unrhyw gamau dilynol sydd eu hangen.

**Crynodeb**

125. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i Opsiwn 3, sef gwneud y newidiadau deddfwriaethol yn llawn. Bydd mabwysiadu'r dull hwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn y sector ysgolion annibynnol yng Nghymru yn cael y manteision mwyaf o ran gwell diogelwch a llesiant ac ansawdd addysg. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddangos eu bod yn cydymffurfio ag argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol a rhai Comisiynydd Plant Cymru.